# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Mai 2017

Amser: 09.00 - 10.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4211

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>David Melding AC (yn lle Janet Finch-Saunders AC)<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Jeremy Miles AC (yn lle Rhianon Passmore AC)<br>Jenny Rathbone AC<br>Huw Irranca-Davies AC (yn lle Joyce Watson AC) |
| Tystion: | Carl Sargeant AC<br>John G Rees, Llywodraeth Cymru<br>Katie Wilson, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Janet Finch-Saunders AC, Rhianon Passmore AC, Joyce Watson AC a Gareth Bennett AC. Roedd David Melding AC, Jeremy Miles AC, Huw Irranca-Davies AC yn dirprwyo ar ran Janet, Rhianon a Joyce yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru): sesiwn dystiolaeth 7 - Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
- John G Rees, Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru
- Katie Wilson, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

2.2. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i ddarparu:

- nifer yr eiddo y mae'n debygol y bydd y cyfyngiadau arfaethedig ar anheddau sy'n cael eu gosod o'r newydd yn effeithio arnynt, a
- manylion y broses ymgynghori a gynhaliwyd ynghylch diddymu cyn cyflwyno'r Bil.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog mewn perthynas â thlodi

3.1.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog mewn perthynas â thlodi.

### 3.2 Llythyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn perthynas â'r Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

3.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn perthynas â Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

### 3.3 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn perthynas â'r Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

4.4.a Nododd y Pwyllgor y llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn perthynas â Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru): trafod y materion allweddol

5.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol ar gyfer Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) i lywio ei adroddiad drafft a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant am y materion a godwyd yn ystod y sesiwn.

### 5.1 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru): Ymatebion i'r ymgynghoriad